

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 156

Rhif 2

Ionawr 12, 2023

50c.

CAPEL EBENEZER 1772-2022

Cynhaliwyd gwasanaeth a'r 6 Rhagfyr i ddathlu dau gan mlynedd a hanner sefydlu yr achos yng nghapel Ebenezer, Llangybi, Cyfundeb Ceredigion. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor.

Cyflwynwyd darlenniad a gweddi bwrpasol i'r achlysur arbennig gan y Parchedig Ganon Aled Williams.

Fe gyflwynwyd crynodeb o hanes yr achos gan Mr Lyndon Lloyd MBE. Aeth a ni yn ôl cyn belled â chynnod y Cilgwyn yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Diddorol oedd clywed yr hanes a'r cysylltiadau oedd gan Ebenezer â chapel ei ardal.

Hyfrydwch o'r mwyaf i ni oedd cael

croesawu plant yr ysgol leol sef Ysgol y Dderi atom i fod yn rhan o'r dathliad. Cymerwyd rhan gan y plant trwy ganu yn wych ac roedd pawb oedd yn bresennol wedi gwerthfawrogi eu cyfraniad.

Roedd neges bwysig gan y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor am y pwysigrwydd o edrych yn ôl. Trwy wneud hynny y mae yn rhwyddach deall y sefyllfa bresennol. Pwysleisiodd ei bod yn hanfodol ein bod ar achlysur fel hwn yn edrych ymlaen at y dyfodol gan ystyried o ddifrif yr heriau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd a sut i ymateb orau iddynt wrth i ni gyflawni gwaith yr Arglwydd Iesu. Braff oedd gweld bod cymaint o aelodau eglwysi'r ardal wedi mynychu'r gwasanaeth.



Gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn gan aelodau Ebenezer.

Lluniaeth

I ddilyn y gwasanaeth roedd Lluniaeth blasus wedi ei ddarparu yn y festri. Yno cafwyd cyfle i fwynhau a chymdeithasu gyda'n gilydd mewn awyrgylch gynnes a hwyliog. Roedd yna gacen arbennig wedi ei gwneud gan Janice Williams. Mi wnaeth Ann Davies addurno'r gacen gyda llun o'r capel. Torrwyd y gacen gan Beryl Davies a hithau hefyd oedd yn gyfrifol am greu y darlun hyfryd o'r capel.

Mae aelodau Ebenezer yn ddiolchgar i ffrindiau'r capel a fu yn helpu gyda'r paratoadau.

Karine Davies



GOLEUNI GŴYL Y GENI YM MWLCH-Y-CORN

Profwyd gwir lawenydd Gŵyl y Geni mewn oedfa arbennig iawn yng nghapel bach gwledig Bwlch-y-corn ger Caerfyrddin ar noswyl Nadolig. Gostyngwyd y goleuadau a chynnau canhwylau, tra roedd geiriau'r carolau a fersiwn Saesneg y darlenniadau o'r Beibl ar y sgrin fawr ar gyfer y digymraeg, ynghyd â fideos a cherddoriaeth. Er bod dwy flynedd ers y noswyl ddiwethaf oherwydd y pandemig, daeth nifer dda ynghyd i gofio geni ein Gwardwr ac i lawenhau yng nghwmni ei gilydd. Unwaith eto'r flwyddyn hon, dathlwyd y ffaith bod y 'goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nad yw'r tywyllwch wedi ei ddiffodd ef.' (Ioan1:5)



CAPEL YN CAU, ER MWYN EI AIL AGOR

Yr oedd yn ddiwrnod trist yn fy hanes pan gefais wahoddiad 'nôl i oedfa datgorffori eglwys Brynmynach lle treuliais ugain mlynedd hapus o'm taith weinidogaethol. Gan nad wyf yn gyrru ar hyn o bryd gwerthfawrogaf hynawsedd a charedigrwydd Terry Reynolds ac Aled Francis am fy ngludo 'nôl a mlaen yn ddiogel, er mwyn gwneud hi'n bosibl i mi fod yno. Cefais y dasg o ddarllen a chan nad oeddwn yn medru aros ar fy nhraed yn hir methais ddweud gair o werthfawrogiad o'r amser gynt. Yr wyf yn hyderu drwy garedigrwydd y papurau bro *Clebran, Y Cardi Bach a'r Tyst* y caniatewch i mi gywiro'r cam.

Hel atgofion

Pan oeddwn yn eistedd yng nghornel y sedd fawr yn disgwyl i'm tro i ddarllen fe grwydrodd fy meddwl i dri digwyddiad mewn hanes. Mae'r cyntaf i'w weld yn Efengyl Luc, pennod 16. Yno mae hanes perchennog busnes a chanddo gwsmeriaid lawer. Penododd



oruchwyliwr i ofalu am ei ddyledion. Daeth i glyw y perchennog fod y goruchwyliwr yn anonest, ac fe'i galwyd ato er mwyn ei ddiswyddo. Sylweddolodd y goruchwyliwr beth oedd yn digwydd. Er mwyn iddo gael croeso ganddynt pan fyddfe fe allan o waith dyma fe'n mynd at ei ddyledwyr a haneru maint eu dyledion. Canmolodd y perchennog ef nid am ei anonestrwydd,

ond am ei fod wedi bod yn gall drwy ddweud fod meibion y byd hwn yn gallach na meibion y goleuni yn eu hymwneud â'u tebyg. Mae plant y goleuni yn methu cadw capeli ar agor ond mae plant y byd hwn yn gweld defnydd arall iddynt er lles y gymdeithas ehangach. Dymunaf yn dda i'r fenter a'r weledigaeth newydd yma.

Plant y byd

Pan oedd fy mam yn ferch ifanc yn Hermon Cynwyl Elfed, dyma un o'r swyddogion yn dweud wrth y gweinidog, y Parchg W. J. Rees, 'Mewn rhai blynyddoedd ni fydd capeli'n bodoli.' Ateb y gweinidog oedd, 'Rwyf yn dweud y gwir, ond os na fydd capeli ar agor byddant yn adeiladu carchardai yn eu lle.' Mae'r cyfnod hwnnw wedi cyrraedd, a'r rhybudd eu bod 'yn llawn cyn ei bod yn agor.' Fe symudwyd capel Undodaidd Penrhwi o Drefach Felindre i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan lle y bues i'n gofalu amdano pan oeddwn yn gweithio yno. Fe hysbyswyd yn helaeth yn y papurau ei fod yn cael ei ailagor a'i gysegru yn ei safle newydd ar dir yr amgueddfa. Yr oedd yna gymeriad yn byw yn Drefach o'r enw John Evans neu ar lafar gwlad sef (John y Gwas) wedi cael ei ddewis i siarad yn yr agoriad a dyma a ddywedodd, nad oedd e'n credu y byddai Duw yn diolch Dr Iorwerth Peate (Curadur yr Amgueddfa) am 'adfer teiso un o'i failures.' Tybed a odi'r Duw Tragwyddol yn diolch i aelodau Brynmynach trwy ddweud fod plant y byd hwn yn gallach na phlant y goleuni trwy ymwneud â'u tebyg?

Brynmynach

Rwy'n cofio'n dda ar y diwrnod cyntaf i mi gyrraedd y lle i Sally Lewis, Glandŵr, gan mai yno yr oeddwn yn y bore, ffonio Jane James, Brynmynach, yn gofyn iddi ddangos y ffordd i Lwynyrhwrdd. Gan fod y ddwy eglwys yn gweithio'n dda gyda'i gilydd penderfynodd Jane ddod gen i. Teithio trwy bentre'r Glog, ac i fyny y ffordd gul heibio i chwareli cerrig y Glog. Hanner ffordd yno dyma fi'n gofyn i Jane i ble rown ni'n mynd? 'I Lwynyrhwrdd,' atebodd, ac mi feddyliais mai fi oedd yr hwrdd mwya yn meddwl am y syniad o symud i'r fath le. Sylweddolais yn fuan iawn wedi cyrraedd fod yr ardal yn ardal ddiwylliedig iawn.

Hywel Mudd

Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn, 22 Tachwedd

Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter olaf y flwyddyn yn Ebeneser, Llanfairpwll.

Daeth tua deg ar hugain at ei gilydd o amrywiol eglwysi'r ynys, a llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchg J. Ron Williams. Cyfyngwyd y mân faterion oedd yn ymwneud â gwaith y Cwrdd Chwarter i gwaith chwarter awr, a rhoddwyd gweddill y cyfarfod i Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Parchg Beti-Wyn James, Caerfyrddin.

Thema ei hanerchiad oedd yr angen i eglwysi fod yn fwy mentrus wrth feddwl am y dyfodol. Mae Duw, meddai, wedi donio pob aelod o bob eglwys â rhyw ddawn neu'i gilydd er mwyn i ni fedru gweinidogaethu i'n gilydd. Bu inni golli golwg ar hyn a mynd i ddibynnu ar weinidogaeth unigolion.

Daeth yn amser i ni ddirnad a meithrin doniau'n gilydd o fewn yr eglwysi fel ein bod yn gallu cynnal gweinidogaeth yn lle gweinidog. Dyma'r her sydd yn ein hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yr oedd hwn yn gyfarfod buddiol allasai yn hawdd esgor ar raglen waith yn ystod y flwyddyn sydd yn dod. Y cwestiwn yw, a ydym yn barod i dorchu ein llewys a bwrw iddi?

Diolch i'r Llywydd am ymweld â ni ac am ei neges heriol.

(Allan o Llais y Tabernacl, Porthaethwy, rhifyn y Nadolig 2022)



Yr Adran Gydenwadol

Yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol, 18–25 Ionawr – i lawrlwytho'r adnoddau Cymraeg, ewch i wefan y [CTBI](#)

‘Beth yw eciwmeniaeth? Saith rheswm pam y mae’n rhaid i eglwysi weithio gyda’i gilydd.’

Ar drothwyr'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol, y Parch. Trystan Owain Hughes, Cyfarwyddwr Datblygu Gweinidogaeth yn yr Eglwys yng Nghymru, sy'n rhannu rhai myfyrdodau am ddyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru.

Mae eciwmeniaeth wedi newid. Yn fy nhraethawd PhD, fe wnes i ymchwilio i eciwmeniaeth yn y 1960au; bryd hynny, roedd llawer yn rhag-weld dyfodol fyddai'n cynnwys symudiad cyson tuag at undod Cristnogol. Ond erbyn i mi sefydlu Canolfan Genedlaethol Astudiaethau Eciwmeniaidd Cymru gyda'r Dr Noel Davies yn y 1990au, roedd yn dechrau gwawrio arnom nad oedd hyn yn anochel – ond yr oedd yna deimlad o hyd ei fod yn beth da i'r Eglwys a'r gymdeithas fel ei gilydd fod enwadau'n gweithio gyda'i gilydd. Erbyn heddiw, rydyn ni'n byw mewn byd sydd wedi newid, â blaenoriaethau, heriau a gobeithion gwahanol iawn i rai hyd yn oed genhedlaeth yn ôl. Felly, yn sgil hyn, mae angen inni ystyried saith pwynt wrth feddwl am ddyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru:

1. Mae eciwmeniaeth yn hollol angenrheidiol i ddyfodol ein ffydd.

Rydyn ni'n byw mewn cymdeithas ac iddi obsesiwn â dewis. Ond, yn y cyswllt yma, credaf nad oes gennym ddewis. Nid rhywbeth dymunol inni ei ystyried yw fod Cristnogion yn gweithio gyda'i gilydd. Er mwyn i'r Eglwys oroesi a ffynnu, ac i'r Eglwys fod yn rhodd i'r gymdeithas yng Nghymru, does dim dewis arall, gan adleisio logo Cymdeithas Bêl-droed Cymru – ‘Gorau chwarae, Cyd chwarae’. Wedi'r cyfan, ar ‘ein tad’ rydyn ni'n gweddio, nid ‘fy nhad’ – rydyn ni'n un teulu yng Nghrist. Drwy wynebu'r dyfodol gyda'n gilydd y gallwn ddod yn fendith wirioneddol, yn ysbrydoliaeth ac yn adnodd i bobl Cymru.

2. Mae eciwmeniaeth y dyfodol yn wynebu realiti gwahanol.

Yn y gorffennol, a hynny'n gywir iawn, rydyn ni wedi dadlau bod eciwmeniaeth yn hollol angenrheidiol ar y sail mai dyna'r hyn sy'n hanfodol yn ôl y Beibl ac yn diwinyddol. Ond, yn y byd heddiw, mae hefyd yn hollol angenrheidiol oherwydd y ffordd y mae'r cenedlaethau iau yn edrych arnom. Mae bron pawb sydd ddim yn Gristnogion (hen ac ifanc), a hyd yn oed y mwyafrif helaeth o Gristnogion ifanc, yn mynegi dryswch ac anghrediniaeth nad ydym yn gweithio gyda'n gilydd. Nid yw llawer o bobl ifanc heddiw'n gwybod beth yw ystyr y gair ‘eciwmeniaeth’, ond o'm profiad i mewn ysgolion a phrifysgolion, pan fyddan nhw'n sôn am Gristnogaeth, am eciwmeniaeth y byddan nhw'n siarad. Mae coleddu a gwerthfawrogi ein traddodiadau unigryw yn rhan bwysig o fod yn aelodau o'r teulu eciwmeniaidd hwn, ond mae'r ffaith nad ydi'r byd yn gweld ein gwahaniaethau yn her anferth yn ogystal â bendith sy'n ein rhyddhau.

3. Mae dyfodol eciwmeniaeth wedi'i wreiddio yn y gymuned.

Mae eciwmeniaeth dda yn tyfu o lawr gwlad tuag allan – mae'n esblygu o weithredu ymarferol yn ein cymunedau. Mae bod yn rhyw ‘felin draffod’ sanctaidd yn dieithrio pobl ac yn eu rhannu. Rhaid i eciwmeniaeth wneud gwahaniaeth gwirioneddol ac ymarferol. Yn



fy mhrofiad fel offeiriad plwyf ac fel rhywun sydd wedi hyfforddi gweinidogion ordeiniedig a lleygwyr o amrywiol enwadau, mae eciwmeniaeth yn dod yn fyw pan fydd pobl go iawn yn dod at ei gilydd i fyw cariad Duw yn eu cymuned leol – helpu ffoaduriaid, rhoi cymorth i rai sy'n cael trafferthion ariannol, cynnal banciau bwyd, sicrhau bod cynlluniau amgylcheddol yn ffynnu, neu i brotestio yn erbyn gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

4. Mae dyfodol eciwmeniaeth yng nghanol bywyd cyhoeddus.

Dim ond gyda'n gilydd y gallwn ni fod yn wirioneddol wrth galon bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Yn ddiweddar, fe fues i'n dysgu ar gwrs meistr i gaplaniaid o amrywiol enwadau, ac roedd y caplaniaid hynny (oedd yn gweithio yn y maes iechyd a'r byd milwrol, mewn ysgolion a phrifysgolion) yn dweud wrthyf yn gyson fod pobl mewn sefydliadau a chyrrff eraill, ac eithrio lleiafrif bychan oedd yn anghytuno, yn dal i edrych tuag atom am arweiniad ysbrydol, bugeiliol a moesol. Mae Cymru yn wlad lle ceir dwy brif iaith a llywodraeth sy'n ffynnu. Felly, mae angen i'r presenoldeb eciwmeniaidd roi blaenoriaeth i adeiladu perthnasau a pharhau i fod yn ganolog i fywyd Cymru (drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd) fel adnodd ac ysbrydoliaeth – yn y Senedd, mewn ysgolion, yn y gwasanaeth iechyd, yn y cyfryngau, yng nghanol dinasoedd, yng nghefn gwlad, ac yn y blaen.

5. Ni all dyfodol eciwmeniaeth anwybyddu'r byd digidol.

Mae'r gymuned leol yn ogystal â'r gymdeithas ehangach yn ganolog i eciwmeniaeth, ond mae cymunedau a chyfathrebu digidol hefyd yn hynod bwysig. All eglwysi ac enwadau ddim cilio i ryw geto eglwysig, ond mae angen iddynt weithio gyda'i gilydd i estyn allan i'n byd digidol.

Roeddwn yn falch iawn o gael y cyfle i sôn yn ddiweddar wrth ymddiriedolwyr yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) am gynllun ‘podeglwys’, menter arloesol a llwyddiannus iawn a sefydlwyd gan fy eglwys yn ystod y pandemig. Roedd pobl o bob enwad yn gwrandao ar ‘Podchurch’, a oedd yn cynnwys deunydd addoli'n canolbwyntio ar newid hinsawdd, cyfiawnder hiliol, anabledd, ffoaduriaid, a llawer o bynciau eraill, ac roedd yn llwyddo i ysbrydoli llawer iawn o bobl y tu hwnt i'm traddodiad i fy hun.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Beth yw eciwmeniaeth? Saith rheswm pam y mae'n rhaid i eglwysi weithio gyda'i gilydd

(parhad o dudalen 1)

6. Rhaid i ddyfodol eciwmeniaeth fod yn agored i gyfeillgarwch rhyng-ffydd.

Mae eciwmeniaeth yn pwysleisio ein hundod yng Nghrist, ond mae hefyd yn cydnabod ein dynoliaeth gyffredin â'n brodyr a'n chwiorydd o ffydd wahanol. Mae hyn yn arwain at ddeialog ffrwythlon a gweithredu effeithiol. Ond rhaid peidio â chymysgu rhwng eciwmeniaeth a gwaith rhyng-ffydd; ar droad y mileniwm fe wnes i wrthsefyll y pwysau i wneud Canolfan Astudiaethau Eciwmeniaidd Genedlaethol Cymru yn 'Ganolfan Genedlaethol Astudiaethau Rhyng-ffydd Cymru'. Dim ond wrth i eglwysi ddod at ei gilydd yn eciwmeniaidd i ddathlu'r hyn sy'n debyg rhyngddynt yn ogystal â'u gwahaniaethau y gallwn gael rhywbeth unigryw ac ysbrydoledig i'w gyfrannu i ddeialog a gweithredu rhyng-ffydd.

7. Mae dyfodol eciwmeniaeth yn seiliedig ar obaith.

Mae cynifer o bobl Cymru wedi colli eu hymlyniad wrth grefydd gyfundrefnol. Ond does dim raid i hyn arwain at ddigalondid. Gall y rhai hynny ohonom sydd o blaid hyrwyddo eciwmeniaeth adeiladu ar ddau beth:

a) Yn ôl yr astudiaethau diweddaraf, mae ysbrydolrwydd yn dal yn bwysig ym mywydau pobl. Mae gwaith diwinyddion megis Gordon Lynch a Charles Taylor wedi dangos mai'r hyn sy'n digwydd yn syml yw fod ysbrydolrwydd pobl yn cymryd ffurf newydd – mewn ffilm a cherddoriaeth, neu ymarfer corff ac ioga, neu mewn pêl-droed a chwaraeon eraill, neu hyd yn oed mewn cyfnod o alar cyhoeddus, fel y gwelwyd yn dilyn marwolaeth y Frenhines Elizabeth II, pan oedd pobl yn mynd i fannau addoli i weddio ac i lofnodi llyfrau cydymdeimlo. Gyda'i gilydd, gall eglwysi ystyried goblygiadau'r ysbrydolrwydd poblogaidd hwn ac yna mynd ati i weithio i ddarparu profiad o eiliadau dyrchafol a throsdynol i gymdeithas sy'n awchu am gyswllt.

b) Yn ogystal â phresenoldeb ysbrydolrwydd cynhenid, mae'r parch tuag at waith diflino'r eglwysi dros gyfiawnder cymdeithasol hefyd yn cynyddu. Mae'r effaith ymaecynlluniau eciwmeniaidd wedi'i chael yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar wedi dangos hyn, ar lefel leol, gyda phrosiectau eciwmeniaidd sy'n trawsnewid bywydau fel gwaith Llanfair ar stad Penrhys yng Nghwm Rhondda, ac yn genedlaethol, gyda gwaith ysbrydoledig Cytûn ar bynciau pwysig fel ymgyrchu yn erbyn tlodi, croesawu ffoaduriaid, a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Felly, mae eciwmeniaeth wedi esblygu llawer iawn yn ystod y degawdau diwethaf hyn. Ond mae'r angen hollol hanfodol am eciwmeniaeth yn parhau. Mewn byd lle mae cynifer o raniadau bellach ym meysydd gwleidyddiaeth a hunaniaeth, fe allwn ni fel Cristnogion ffurfio undod rhyfeddol o fewn yr amrywiaeth hwnnw i ddod â gobaith i'n byd drylliedig, wrth inni siarad ar ran y rhai sydd heb lais, sefyll gyda'r rhai sydd wedi'u gwrthio i'r cyrion, a dangos i bobl Cymru fod ein ffydd yn newyddion da i bawb.

'Oes yna'r fath beth â cherdd grefyddol heddiw?'

Darllenwch farn y Cyn-archesgob Rowan Williams yn y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd*

Prif erthygl y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd* yw'r ddarlith a draddododd y Cyn-archesgob Rowan Williams ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, Tregaron, ar y testun 'Cerdd a Chredo: ydi cerdd grefyddol yn bosibl heddiw?' Bydd y sawl a oedd yn gwrandao arno'n cofio mai ymdriniaeth dreiddgar ac ystyriol a gafwyd, gan ddweud, yn y diwedd, 'Ydi', ond nid cyn codi enghreifftiau gan rai o'n beirdd cyfoes, Ceri Wyn Jones a Menna Elfyn ond yn fwyaf arbennig Aled Jones Williams sydd, fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, yn llais hynod, onid unigryw, yn y byd llengar Gymraeg. Ofer yw ceisio crynhoi'r ddarlith mewn llinell neu ddwy fel hyn; rheitiach fyddai i chi ddarllen yr ysgrif yn bwylllog drosoch eich hunain a phrofi o'i chyfoeth. Chewch chi mo'ch siomi.

Yn ogystal â'r ysgrif uchod ceir yn y rhifyn ail ran ymdriniaeth Pryderi Llwyd Jones â gwaith Thomas Traherne, y bardd Saesneg o'r gororau. Yn dilyn hynny, mae astudiaeth hynod ddiddorol Llion Wigley ar hanes gardd-bentref Rhiwbeina, Caerdydd, yn nauddegau'r ganrif ddiwethaf, a'r ymgais iwtopaidd ei naws i greu cymuned arbrofol a ddenodd


rai o flaenwyr y dosbarth canol Cymraeg – Kate Roberts, Iorwerth Peate, R. T. Jenkins yn eu plith – i fyw yno. Yna, ceir ysgrif sobreiddiol gan D. Ben Rees ar erchyllterau'r Holocaust, a'r angen i ni beidio byth â'i anghofio.

Ymhlith ein hadolygwyr y mae Huw Pryce, sy'n ymdrin â chyfrol yr archeolegydd David Austin ar Ystrad-fflur (eto'n gysylltiedig ag Eisteddfod Genedlaethol Tregaron) a cheir gwerthfawrogiad gan Dafydd Ifans o olygiad Gruffydd Aled Williams o ysgrifau'r ddiweddar Ddr Enid Pierce Roberts, gynt o'r Adran Gymraeg ym Mangor. Rhidian Griffiths sy'n cloriannu cyfrol Rhiannon Ifans, *Stars and Ribbons: winter sailing in Wales* – bydd rhai'n cofio'r gyfrol *Sêrs a Rybana*, a gyhoeddwyd gan yr awdur mor bell yn ôl ag 1983, ond nid cyfieithiad moel mo hwn ond ffrwyth aeddfed ymchwilio a myfyrio pellach ar y maes. Ac Arfon Jones, yntau'n arbenigwyr ar hanes ein hesboniadaeth feiblaidd, sy'n trafod astudiaeth ddisglair Gareth Evans-Jones, 'Mae'r Beibl o'n tu': *Ymatebion crefyddol y Cymry yn America i gaethwasiaeth (1838-1868)*.

Anogwn bawb sy'n ymddiddori ym mhethau gorau'r diwylliant cenedlaethol

Ionawr 2023

Y Traethodydd



Cerdd a Chredo: Rowan Williams ar ganu crefyddol heddiw

nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn o'r *Traethodydd*, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny drwy gyfrwng y wefan: www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Denis Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

13 Cadarnhau addewid

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 7, t. 56 ymlaen)

Darllen: Genesis 13:14–18

Cyn troi o bennod 13, rwyf am gyfeirio at un peth trawiadol sydd yng nghanol y bennod. Wedi i Abraham ganiatáu i Lot i ddewis ble roedd am fyw er mwyn osgoi unrhyw gynnen rhyngddynt, cawn fod Duw yn dewis yr amser yma i addo bendith i Abraham unwaith eto; sylwch yn arbennig ar adnodau 14–17. Yn naturiol, yr hyn ddaeth i'm meddwl yn gyntaf wrth ailddarllen yr adnodau oedd y gwirionedd a geir yn Hebraeid 11:10: 'Oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi' ac yna, Hebraeid 11:13–16, a'r cymal ar ddechrau adn. 16: 'Ond y gwir yw eu bod yn dyheu am wlad well, sef gwlad nefol.' Ac yn olaf, yn y bennod yma o'r Hebraeid, ceir geiriau'r awdur am Moses (adn. 24–6), lle y darlunnir penderfyniad Moses i wrthod cael ei alw'n fab i ferch Pharo a dioddef adfyd gyda phobl Dduw, oherwydd bod ei olwg ar y dydd y byddai Duw yn rhoi'r wobr.

Wedi nodi hyn, mae arwyddocâd arbennig i glywed yr addewid yn awr i Abraham, a'r addewid hwnnw wedi ei helaethu. Nid yn unig y mae Duw am roi gwlad a chenedl i Abraham (gweler Genesis 12:2 a 7), ond bellach bydd ei had fel llwch y ddaear, a does dim tir Lot fel y cyfryw, gan fod yr Arglwydd yn caniatáu i Abraham rodio ar hyd a lled y wlad, 'oherwydd i ti yr wyf yn ei rhoi' (17). Gwyddom mai am amser byr iawn y cafodd Lot 'fwynhau' ei ddewis ef, ond, i Abraham, mae'r addewid iddo a'i ddisgynyddion 'am byth' (15). Yn wir, os oedd Abraham yn edrych i lawr at dir ffrwythlon dyffryn yr Iorddonen o fynydd-dir moel a llychlyd, mae hyd yn oed y llwch hwnnw'n cael ei ddefnyddio fel darlun o'r fendith oedd yn aros iddo. Pwy a wŷr nad oedd Sarah, ei fugeiliaid ac unrhyw un arall gafodd ei effeithio gan ei ddewis yn

troi arno am wneud y dewis hwn. Ac yn wir, yn y tymor byr mae'n amlwg fod Lot wedi cael y budd gorau, gyda hwnnw'n medru cyfnewid ei babell am gartref cysurus yn ninas Sodom. Rydym ninnau'n ymwybodol iawn fod yna benderfyniadau, fod yna fentro ar Dduw sy'n ymddangos yn golled i eraill ar y cychwyn, ac efallai hyd yn oed i ninnau.

Yn ei lythyr at Gristnogion oedd yn gorfod wynebu anawsterau a threialon oherwydd eu penderfyniad i ddewis Iesu, mae Pedr am ddweud wrthynt:

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw, i etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa. Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi, chwi sydd trwy ffydd dan warchod gallu Duw hyd nes y daw iachawdwriaeth, yr iachawdwriaeth sydd yn barod i'w datguddio yn yr amser diwethaf. Yn wyneb hyn yr ydych yn gorfoleddu, er eich bod, fe ddichon, yn awr yn profi blinder dros dro dan amrywiol brofedigaethau. (1 Pedr 1:3–6)

Yn adnod 10 mae Lot yn codi ei olwg ac yn gweld y wlad oedd o'i flaen, ac yn adnod 14 mae Duw yn gorchymyn i Abraham godi ei olwg; cawn fod y naill yn olwg yn ôl y cnawd, a'r llall yn olwg trwy lygaid ffydd. Tra mae Lot wedi cael ei ddewis ef yn awr, rhywbeth fyddai'n cael ei roi yn y dyfodol fyddai rhan Abraham. Ond o'i roi, yr oedd yn rhoi am byth. Yn hynny, mae'r Cristion bob amser yn barod i ymddiried yn y llais yma sy'n ei alw ac yn rhoi addewid. Ei ddymuniad yw cael ei blannu yn y tir hwnnw lle mae'n anfodlon 'dilyn cyngor y drygionus nac ... ymdroi hyd ffordd pechaduriaid nac ... eistedd ar sedd gwatwarwyr' ond, yn hytrach, 'sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr ARGLWYDD ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. Y mae fel pren wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor, a'i ddeilen heb fod yn gwywo. Beth bynnag

a wna, fe lwydda' (Salm 1:1–3). Tebyg fod agwedd Abraham yn y bennod hon yn gysgod o'r bobl hynny a ddisgrifir gan Iesu: 'Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear' (Mathew 5:5) a'r agwedd a gymeradwyir gan Iesu: 'Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoi y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi' (Mathew 6:33).

A dychwelyd at amseriad rhagluniaethol ailadrodd yr addewid hwn, mae'n sicr yn ein hatgoffa fod Duw yn adnabod ein defnydd, yn gwybod am ein dyddiau, fel ein munudau, ac yn gwybod yn dda beth yw'r moddion gorau i'n cynorthwyo i wynebu pob amgylchiad yn ei dro. I Abraham, dyma'r amser i'w gadarnhau, i'w gysuro, i'w annog o ran ei ffydd. Os yw amynedd yn un o ffrwythau'r Ysbryd (Galatiaid 5:22), ac os yw'r Ysgrythur yn ein hannog yn gyson i '[dd]isgwyl yn dawel am yr ARGLWYDD, aros yn amyneddgar amdano' (Salm 37:7), gwyddom hefyd fod Iesu, ein harchoffeiriad mawr, yn abl i gyd-ddioddef â'n gwendidau, a rhoi gras yn gymorth yn ei bryd (Hebraeid 4:14–16). Yn sicr, mae'r gras hwn yn gwneud ei waith ym mywyd Abraham yr adeg yma, oherwydd fe gawn ei fod yn adnod 18 yn dewis lle priodol i gysgodi ac yn codi allor i addoli'r Arglwydd. Fel Eiseia, mae wedi darganfod fod y 'rhaisyn' yn disgwyl wrth yr ARGLWYDD yn adennill eu nerth; y maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino, ac yn rhodio heb ddiffygio' (Eiseia 40:31).

1. Oes yna gyfnodau lle y byddwch wedi cwestiynu doethineb ymddiried yn Nuw, neu gwestiynu doethineb rhywun o'ch cydnabod a wnaeth hynny?
2. 'Dayw'r ARGLWYDD i'r rhaisyn' gobeithio ynddo, i'r rhaisyn ei geisio. Y mae'n dda disgwyl yn dawel am iachawdwriaeth yr ARGLWYDD' (Galarnad 3:25–6). Beth fydd yn eich cynorthwyo chi i ailglywed addewidion Duw ac i annog amynedd?
3. Nodwch enghreifftiau o adnabod 'gras yn gymorth yn ei bryd'.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 15 Ionawr, am 7.30yp

Lisa fydd yn crwydro Ynys Môn yn dysgu am rai o'r emynwyr mawr sydd wedi dod â chrefydd yn fyw i genedlaethau o Gymry ers dwy ganrif a mwy



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 15 Ionawr, am 7.30yb a 4.30yp

R. Alun Evans fydd yn cyflwyno'r bedwaredd raglen mewn cyfes sy'n trafod gwahanol themâu. Heddiw, y synhwyrau sydd dan sylw

Sul, 15 Ionawr, am 12.00yp

Oedfa dan arweiniad Melda Grantham, Llandysul

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn, 27 Medi

Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Eglwysi Annibynnol Môn, y trydydd y flwyddyn hon, ar nos Fawrth, 27 Medi, yng nghapel Moriah, Gwalchmai. Y Parchg J. Ron Williams oedd yn cadeirio a chafwyd cyfarfod buddiol a llawen yno.



Yn dilyn croesawu'r ddau ddwsin o gynrychiolwyr oedd wedi dod o amrywiol eglwysi o fewn y sir, cafwyd defosiwn byr gyda'r cadeirydd yn darllen o Ioan 17 ac yn offrymu gweddi yn gofyn am fendith Duw ar y cyfarfod. Cafwyd dim ond un ymddiheuriad am absenoldeb, a hwnnw gan ysgrifennydd y Cyfundeb, sef Edward Morus Jones, a hynny gan ei fod yn yr Unol Daleithiau. Esboniwyd mai Mrs Janet W. Jones fyddai'n cymryd cofnodion yn ystod y cyfarfod, a diolchwyd iddi hi ymlaen llaw am ei gwaith.

Esboniwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf (24 Mai 2022 yn Libanus, Benllech) eisoes wedi eu dosbarthu trwy e-bost, ond bod copiâu ar gael i'r rhai nad oeddent wedi eu derbyn. Cyflwynwyd hwy i'r cynrychiolwyr gan y cadeirydd a derbyniwyd yn unfrydol eu bod yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion

Dywedodd y cadeirydd ei fod wedi clywed fod mater y wal y tu allan i gapel Canna, Llanddaniel, wedi ei setlo, ond cafwyd llais o'r llawr yn dweud nad oedd hynny'n gywir a bod ychydig eto i'w wneud. Nodwyd nad oedd unrhyw ddatblygiad pellach yn achos Salem, Bryngwran, ond bod y Cyngor am gael gosod tap dŵr yn y fynwent ac am i'r Cyfundeb dalu am y gwaith. Cytunwyd i wneud hynny. Nodwyd bod eglwys Smyrna. Llangefni, bellach wedi ei datgorffori a bod Coleg yr Annibynwyr Cymraeg wedi dod i ddiwedd ei ddyddiau a'r cyfrifoldeb am hyfforddi wedi ei drosglwyddo i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Atgoffwyd y cynrychiolwyr fod yr ysgrifennydd wedi rhoi rhybudd ei fod am gael ei ryddhau o'i ddyletswyddau ac y bydd angen i'r Cyfundeb ethol ysgrifennydd newydd cyn bo hir.

Materion ariannol

Cadarnhawyd rhoi grant i ddwy eglwys iddynt fedru cwblhau gwaith ar eu hadeiladau, a nodwyd fod cais ychwanegol i ddod gan drydedd eglwys, ond na ddaeth dim i law hyd yma. Esboniwyd fod taliadau blynyddol i un eglwys heb eu gwneud yn dilyn marwolaeth y cyn-drysorydd, a phleidleisiwyd i adfer y taliadau hynny i'r dyfodol ynghyd â thalu ôl-ddyled y tair blynedd diwethaf.

Gohebiaeth

Derbyniwyd negeseuon o Dŷ John Penri, sef swyddfa Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, (a) yn ein hatgoffa fod yr Undeb yn dal i chwilio am drysorydd newydd, (b) yn cyflwyno ffeil *Heulwen dan Gymylau* (un i bob eglwys am ddim), i alluogi'r eglwysi i ddod yn ddementia-gyfeillgar (c) yn hysbysebu Anerchiad y Llywydd, y Parchg Beti-Wyn James, Caerfyrddin, sydd ar werth am £5 y copi.



Yn dilyn derbyn adroddiadau o'r eglwysi yn y cyfarfod diwethaf, a chlywed un yn sôn mor anodd yw cael rhywun i arwain addoliad y Sul, bu'r cadeirydd yn esbonio sut y gallai cynulleidfaoedd naill ai fynd ati i drefnu eu haddoliad eu hunain trwy ddefnyddio'r cyfoeth o lenyddiaeth sydd bellach ar gael trwy'r Cyngor Ysgolion Sul neu fanteisio ar ddarpariaeth Zoom eglwysi eraill neu ar eu trefniadau i ddarlledu oedfaon dros y ffôn.

Cafwyd neges gan y Parchg Jim Clarke yn ein hysbysu na all bellach dderbyn cyhoeddiadau ar y Sul. Cafwyd sôn hefyd am helynt eglwys gyda'i banc ac awgrymwyd enwau dau fanc arall iddi gysylltu â hwy.

Cadarnhawyd y Parchg J. Ron Williams, Mr Bryn Mortimer-Roberts a'r Parchg Ddr Geraint Tudur fel ymddiriedolwyr un o gyfrifon banc y Cyfundeb a daeth y cyfarfod i ben am 7.30 o'r gloch gyda diolch i bawb am eu cwmni.

Arrogant Scientists

Yn ddiweddar, wrth geisio cyflawni tasg a nod anorffenedig, sef, tacluso hen bapurau, glaniodd fy llygaid ar deitl un ysgrif: 'Scientists are so arrogant'. Mae'r awdur yn gosod seiliau ei ddadl yn blwmp ac yn blaen yn y paragraff agoriadol (trosiad o'r Saesneg) mae'n dweud: 'Tybiant eu bod yn gwybod yr holl atebion. Nhw sy'n gwybod popeth a'r gweddill ohonom yn gwybod dim. Felly, pan fyddant yn datgan, byddwn ninnau yn cadw'n ddistaw ac yn gwranddo. Os na fyddwn ninnau yn deall y gwirionedd a ddaw ganddynt, yn syml rydym yn dwp neu, mewn termau cwrtais, yn wyddonol anllythrennog.'

Â'r awdur yn ei flaen i nodi bod problem wedi dod yn glir mewn addysg gwyddoniaeth, sef, bod gan blant eu syniadau eu hunain am sut mae'r byd yn gweithio. Daeth y canfyddiad hwn i'r golwg tua hanner can mlynedd yn ôl pan fu ymchwilwyr yn holi plant am eu hymatebion personol i amrywiol sefyllfaoedd ac arbrofion yn eu gwersi gwyddonol, yn hytrach na gofyn cwestiynau am yr wybodaeth a drosglwyddwyd i'r plant gan eu hathrawon, hynny yw, yn holi fel petai'r disgyblion yn sefyll prawf neu arholiad. Y diddordeb cynt (ac yn parhau i raddau helaeth) oedd mewn gwybod a ydy'r genhedlaeth ifanc yn cario'r etifeddiaeth o atebion cywir ymlaen yn effeithiol?

parhad ar y dudalen gefn



Barn Annibynnol

Pa mor dda ydyn ni'n arddel, adnabod a pharchu'n gilydd? Yn ddiddorol iawn.....

A ninnau wedi cychwyn ar flwyddyn newydd gyda'n gilydd, addas ydi cymeryd stoc wrth edrych yn ôl ar y llynedd ac ymlaen i'r eleni. Yn ôl y Cyfrifiad diwetha, mae'r presennol yn edrych yn reit dywyll yn ystadegol i'n henwadau Cristnogol ni yma yng Nghymru, gyda llai o bobol yn ystyried eu hunain yn ddilynwyd dysgeidiaeth Iesu o Nasareth. O ran cyfundrefnau enwadol, ceisia pob corff ddangos bod y presennol a'r dyfodol yn ddiogel yn eu dwylo er gwaetha'r arolygon barn. Y Nadolig diwetha – 2022 – dyfynnodd y cyfryngau cymdeithasol yma yng Nghymru 'Neges Nadolig' yr Archesgobion Anglicanaidd a Chatholig ond ... ond, doedd dim sôn am gyfraniad y traddodiadau Anghydfurfiol yn eu neges hwy. Piti garw na fydder ddau 'wr doeth' wedi gwahodd Llywyddion yr Enwadau Anghydfurfiol i gyfrannu wrth baratoi'r 'Neges'. Rhaid oedd i Lywyddion ein henwadau rhyddion ddiwynnu ar y papurau Enwadol ac a'r Facebook a'i debyg i ledaenu eu neges hwy. Pawb ar ei domen ei hunan yw hi o hyd mae'n amlwg!

Blog

Dros y Dolig, cefais flas ar ddarllen blog ar eciwmeniaeth gan gyn-gydweithiwr i mi, y Parchg Ddr Ganon Trystan Owain Hughes. Gweler: <https://trystanowainhughes.wordpress.com/2022/12/20/what-is-ecumenism/> Mae'n darllen fel ymarferiad academiaidd yn hytrach na rhywbeth ymarferol, wedi ei wreiddio yn y lleol-bresennol. Nodaf hyn oherwydd atgoffodd y blog fi o'r profiad o ymweld â chymuned Gatholig yn y Phillipines 'nôl yn yr 80au, a chael ar ddeall, oherwydd erledigaeth y llywodraeth ar Gristnogion yn y cyfnod hwnnw, bod yr Eglwys Gatholig yn gweithio'n agos gyda'r eglwysi Bedyddiedig. Lle nad oedd gweinidog gan y Bedyddwyr mewn gofalaeth, mi fydder Tad Catholig yn bugeilio, pregethu a rhannu'r Cymun. Lle nad oedd offeiriad Catholig, mi fydder gweinidog Bedyddwyr yn cymryd at y cyfrifoldebau. A dyma fi'n

gofyn, 'Beth yw ymateb Rhufain i hyn?' Yr ateb gefais oedd, 'Beth all Rufain ddweud? Rydyn ni'n gofalu am eneidiau'n gilydd a dyna sy'n bwysig.'

Eciwmeniaeth ar waith!

Yn y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd cynhaliwyd angladd Mrs Norah Morgans, diweddar briod y Parch Ddr John Morgan Pen-rhys. Roedd sefydlu Eglwys Llanfair Pen-rhys yn arbrawf eciwmeniaidd gwyh 'nôl yn y 90au, a ariannwyd gan yr wyth enwad yma yng Nghymru. Yn y cyfnod hwnnw roedd gennym arweinwyr o fewn ein henwadau a gredent yn y gwerthoedd eciwmeniaidd. Cyfnod arloesol gwyh iawn. O ganlyniad, sefydlwyd eglwys gydenwadol ym Mhen-rhys, ar sylfaen eciwmeniaidd gadarn iawn gan John ac Norah. Eglwys a oedd yn un ddealladwy a pherthnasol i 'fywyd pob dydd' trigolion y stad. Fel dywedodd un gŵr wedi'r angladd, 'Wnaethon nhw ddim ein beirniadu unwaith. Cawsom ein derbyn ganddynt, ein cofleidio a'n caru.' Gwraig gymharol ifanc wedyn yn cofio 'nôl i'r dyddie hynny yn y 90au '... lle ro'n ni'n byw a bod yn yr eglwys yn Llanfair.' Roedd Norah wedi cerdded Ffordd Emaus i Ben-rhys a chael profiad o'r Iesu atgyfodedig wrth gerdded ei ffordd hithau gyda'r Iesu yn ein byd cyfoes ni. Ymddangosodd yr Iesu atgyfodedig i ddau ddieithryn oedd wedi colli gobaith. Gobaith a adnewyddwyd wrth iddynt ddod i adnabod Iesu wrth iddo dorri a rhannu bara.

Cannwyll

Heb weinidog bellach, ond drwy ddyfalbarhad un o'n haelodau ni, sef Miss Sharon Rees, sy'n byw ym Mhen-rhys ers degawdau erbyn hyn, ynghyd â chnewyllyn cryf o drigolion stad Pen-rhys, mae kannwyll tystiolaeth eciwmeniaidd Gristnogol Llanfair yn dal i losgi a dylanwadu. Mae'r hyn a gyflawnwyd gan Norah a John yn weinidogaeth amhrisiadwy a dweud y lleia. Gweledigaeth a gweithgaredd a oedd yn llosgi yn eneidiau trigolion Pen-rhys ymhell cyn i ni ddechrau breuddwydio am weithgaredd cronfa Arloesi a Buddsoddi.

Wrth baratoi'r pwt hwn, canodd cloch y drws ac euthum i weld pwy oedd yno. Y Tystion Jehofa; haid ohonynt, yn ymweld â Pheniel. Beth bynnag yw ein barn am y 'TJs', rhaid cydnabod eu parodrwydd i dystio. Elfen ddierth iawn i ni ers

degawdau bellach. Y 'mynd allan' yna i ganol ein cymunedau. Cywasgu a chwtogi'n tystiolaeth a wnaethom ni ers tro byd. Diflannodd y Gymanfa Dair Sir; Y Gymanfa Bwnc; yr ysgol Sul i oedolion, ac ambell ysgol Sul y plant hefyd. Mi laddodd COVID oedfa'r hwyr mewn llawer man. Dieithriodd y capel / eglwys leol o fywyd y gymuned leol. Yng ngoleuni ystadegau'r Cyfrifiad, onid dieithrwch ein 'tystiolaeth' ni fel capeli ac eglwysi sy'n gyfrifol? Yn fy mhrofiad i, mae'r gymdeithas o'n hamgylch yn dal i fynegi ymrwymiad i elfennau ysbrydol bywyd, a hynny heb unrhyw gyswll â lle o addoliad. Onid ni sydd wedi ymbellhau a dieithrio, drwy ddal at hen arferion a thraddodiadau ofergoelus bron?



Yr yfory ...

Da gweld gofalaethau cydenwadol yn cael eu sefydlu ar draws ein gwlad. Credaf yn gryf bod angen i ni gyd roi'n gwahaniaethau o'r neilltu, a dechrau trafod o'r newydd yn gydenwadol. Bydd yn rhaid i ni fynd allan o'n capeli cyfforddus i ganol treialon byw a bywyd ein cymunedau er mwyn gwireddu 'eglwys heb furiau'. Oni ddylem hefyd glosio mwy mewn trafodaethau â chrefyddau eraill sydd bellach yn 'gymdogion' i ni mewn llawer dinas a thre?

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni ddod o hyd i gynlluniau a dulliau cyfoes i hyfforddi cenhedlaeth newydd o arweinwyr eglwysi, arweinwyr addoliad, arweinwyr gwaith ieuencid, arweinwyr cymunedol/cenhadol yn gysylltiedig â'r eglwys leol, ac yn y blaen, boed yr arweinwyr rheini yn llyegwyr neu'n ordeiniedig ar draws yr enwadau. Arweinwyr a fydd yn cael eu 'cydnabod' ar draws yr holl enwadau yng Nghymru. Arweinwyr a fydd wedi eu hyfforddi i gyflwyno gobaith a dehongli'r Newyddion Da i'n cymunedau, a hynny ar lefel ddealladwy a syml. Mae'n amlwg bod ein dulliau, wedi methu. Mae angen creu mwy o 'Eglwysi Unedig' fel Pen-rhys ar hyd a lled Cymru. Ar ddechrau 2023 beth am siarad llai a chydweithio mwy? Yr Iesu pia'r gair ola, 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfych felly ar arglwydd y cynhaeaf i anfon gweithwyr i'w gynhaeaf.' (Luc 10:1-16).

Tom Evans

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**

39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01262 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Arrogant Scientists - parhad

O'i osod mewn termau eraill, ydy'r uniongrededd traddodiadol yn ddiogel?

Trindod wyddonol

Mewn gwyddoniaeth yn gyffredinol, disgwylir bod unrhyw ddamcaniaeth neu theori yn amlygu tair nodwedd, (a) yn hunangyson yn cyfeirio'n deg at y data sy'n deillio o arbrawf dan sylw, (b) yn dehongli unrhyw batrwm yn y data, gan wneud hynny'n ddychmygus (nid ffuantus), (c) yn awgrymu'r camau nesaf yn yr astudiaeth a darogan beth ddaw. Felly, mae agweddau ar y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Gan fod gwyddoniaeth wedi bod yn rhan amlwg yn fy mywyd a'm gwaith, mae'n naturiol i mi ystyried crefydd yn y

modd hwn, gan gofio na ddylid mynnu bod arferion un ddisgyblaeth o raid yn llwyr briodol i ddisgyblaeth arall. I gychwyn, rwy'n hoffi'r arfer mewn addysg o roi mwy o bwyslais ar holi plant am eu syniadau mewn gwyddoniaeth. Nid felly oedd amgylchiadau fy addysg innau; datganiad yr athro oedd popeth. Does gen i ddim cof mewn capel o neb yn holi am fy marn innau. A oes newid heddi? A oes trefniant mewn eglwys i holi/herio'r pregethwr? Y profiad agosaf at hyn a gefais oedd bod yn aelod o ddosbarth ysgol Sul oedolion yn eglwys Minny Street, Caerdydd.

Cristnogion hunandybus

Rwy'n tybio bod mwyafrif darllenwyr Y

Tyst yn cofio'r bennod sy'n agor gyda'r geiriau, 'Os llefaraf â thafodau dynion ac angylion ...' ac yn gorffen gyda'r geiriau, '... y tri hyn ... a'r mwyafrif o'r rhain yw cariad', gyda'r cof yn rhoi'r cyfeiriad, 1 Corinthiaid 13. Ond faint sy'n cofio, gyda'r un dwyster, yr adnod heriol, aflonyddol, sy'n agor gyda'r geiriau, 'Pan oeddwn yn blentyn ...' ac yn gorffen gyda'r geiriau, '... yr wyf wedi rhoi heibio bethau'r plentyn.'? Gobaith gwyddoniaeth yw bod syniadau'r plentyn yn aeddfedu. Beth yw gobaith Cristionogaeth gyfundrefnol? Petai'r Apostol Paul yn sgrifennu atom heddi a fyddai yn ailddatgan y ddwy adnod sy'n agor pennod 3 o'i Lythyr Cyntaf at y Corinthiaid? Ai teg yw i mi roi gwedd wahanol ar y gosodiad o ddechrau'r ysgrif hon a chynnig, **Cristians are so arrogant?** Pa eiriau Cymraeg sy'n briodol at drosiad? Mae Geiriadur yr Academi yn cynnig *trahaus, balch, haerllug, rhodresgar, ffroenuchel*. Beth am *hunanfodlon*?

Neville Evans
Bethel Penarth

Caersalem

Daeth tyrfa luosog ynghyd i Gaersalem, Pontyberem, ar fore Sul 11 Rhagfyr ar gyfer Neges yr Ŵyl. Oedfa arbennig oedd hon i ddathlu geni ein Gwardwr Iesu Grist a hynny o dan arweiniad plant y plant yr eglwys. Cafwyd oedfa arbennig o fendithiol oedd yn cynnwys llefaru, canu a chyflwyniadau cerddorol. Y cwbl er clod i Dduw ac er mwyn dathlu dyfodiad y Meseia i'n plith. Diolch i'r plantos am eu gwaith caboledig.



Cyfundeb Gorllewin Morgannwg
yn cyflwyno

Heulwen Dan Gymylau

Ymgyrch Eglwys Dementia-gyfeillgar

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

yng nghwmni

Emlyn Davies, Rhodri Gwynn Jones a Sian Meinir

CAPEL Y NANT, CLYDACH, SA6 5HB

Nos Fercher, 1 Chwefror, 2023

6.30 p.m.

Croeso cynnes i bawb

